WG35 S 122

# GALAR GAN,

AR YR ACHLYSUR O FARWOLAETH

## WILLIAM LLEWELLIN;

Yr hwn a ymadawodd ar fychedd hon, Ionawr yr 21, 1851, yn 49 oed, a dderbynwyd yn Aelod yn y

## TAIHIRION,

Ac a fu yn un o'r Annibynwyr 24 o flynyddoedd.

*GAN JOHN MORGAN.*

Gwir alar sy'n bod
  Ymhlith y cymdogion
Mae olwyn y rhod
  Yn cyffwrdd a Sion;
Un WILLIAM LLEWELLIN,
  'Madawodd a'i deilu,
Yn ngwaelod ei fedd
  'Fe gafodd ei roddi,
Mae llefau'r ymddifaid
  Adawodd ef yma,
Yn ddigon i ddatod
  Y galon galeta'.

Dros bedair ar ugain
  O flynyddau meithion
'Fe gafodd y fraint,
  Rhwng muriau'r Taihirion,
O roddi ei enw
  Yn filwr i'r Iesu,

X205311570

Er gwell ac er gwaeth
  Tra gallsau anadlu ;
Fe glywyd ei swn,
  Do ganoedd o weithiau,
Yn bendigo'r Gwr,
  Am obaith dihangfau.

Ar foreu dydd gwaith
  I'w daith fe aeth allan,
Heb ganfod y saeth
  Yn eigion y ddaeren,
Yr elfen ddaearol,
  Fu 'n offer i angau,
Hi syrthiodd yn bwysig,
  Ar un o'i aelodau,
Hi drylliodd hi'n llwyr
  Ei enioes a redodd ;
Fe'i cludwyd i dre'
  Ei wedd a newidodd.

Fe gariwyd yr hanes
  I glyw y meddygon,
Rhai medrys a doeth,
  Nid gweiniaid ond glewion ;
Ac angau fel cawr
  A safodd yn hoyw,
Defnyddwch eich scil
  Mi mynaf e'n farw ;
Mae'n un o fy neiliaid
  Myfi yw ei frenin,
M'i rhoddaf fe'n llwyr
  Yn ngwaelod y dyffryn.

Pan welodd y brawd
  Fod angau 'n ei ddilyn
'Fe alwodd ei briod
  Ai blant at yr echwyn;
"Fy nheulu anwylaf,
  Chwi welwch i'n datod,

Gwnewch ymdrech yn unol
I nabod y cymod,
Ond am danaf fi
Mae pob peth yn hyfryd
Mi rwyfaf drwy 'r lli
Mi landa' mewn bywyd.

Deunaw cant a deg,
A deugain o flwyddau,
Un chwaneg a roddaf
Yn rhif y blynyddau;
Yn Ionawr yr unfed
Ar ugain o ddyddiau,
Yn Nglafdu Caerdydd
Fe ddarfu ei boenau,
Fe unodd mewn hedd
'Nol barn ei gyfeillion;
Gadawodd y cledd
Fe gafodd y goron.

O barch y cychwynodd
Rhyw dorf o'i gyd-weithwyr
I gyrchu 'r gweddiliion
At Gapel yr Adur,
Wrth Bethel mae'r fan
Lle gorffwys yn dawel,
Oddi wrth ei lafur
Yn gymysg a'r grafel;
Nes codo i'r lan
Yn mhlith teulu Sarai,
Yn gadarn nid gwan
Heb aelod yn eisiau.

Boed bendith a hedd
I ddilyn ei deulu
Sydd oll yr un wedd,
Yn awr yn galaru;
Nesewch at y Gwr
A roddodd ei enw,

Yn Dad i'r ymddifaid,
Yn rhysgwydd i'r weddw;
Dymynwch y fraint
O gael yr arddeliad
Ach gwnelo chwi 'n Saint,
Cyn dydd yr ymweliad.

Gwrandawyr, gwrandewch,
Nesewch cym'rwch sylw,
Nid ydym ni i fyw,
Gosodwyd ni 'i farw;
Mae'r ddeddf yn ein gofyn,
Troseddwyr yw ein henwau,
Daw angau i'n symyd,
I olwg y llyfrau,
Gofynaf yn siwr,
Pa wedd yr ymdrawu'
Yn ymchwydd y dwr,
Heb 'nabod yr Iesu!

Jacob